

Datganiad o Resymau

Aberthin

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig gwneud Gorchymyn Traffig Arbrofol dan Adrannau 9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a fydd yn newid y terfyn cyflymder presennol i ffyrdd 20mya ym mhentref Aberthin, ger y Bont-faen. Y gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y cynigion yw gosod pyrth ac arwyddion 20mya mewn lleoliadau a nodwyd i weithredu'r Gorchymyn Arbrofol uchod.

Y rhesymau ffurfiol dros gynnig y Gorchymyn newydd yw:

- > Mae cefnogaeth sylweddol gan y gymuned ac aelodau lleol dros gyflwyno terfyn 20mya ym mhentref Aberthin.
- > Gofynnodd y gymuned yn flaenorol i groesfan i gerddwyr a reolir gael ei hystyried i'w gosod gan ddefnyddio arian Trafnidiaeth Gynaliadwy Adran 106 wedi'i neilltuo ar gyfer Teithio Llesol, ond ni ellid bwrw ymlaen â hyn oherwydd cyfluniad y ffordd ac, yn benodol, leoliad y prif safle bws ar gyfer y pentref.
- > Y rheswm dros weithredu'r Gorchymyn hwn yw er budd diogelwch ar y ffyrdd ac, yn benodol, leihau pryderon ynghylch diogelwch cerddwyr oherwydd ei bod yn anymarferol darparu croesfan i gerddwyr a reolir o fewn amgylchedd y pentref.
- > Mae'r Gorchymyn hefyd yn bodloni'r gofynion ar gyfer arian Trafnidiaeth Gynaliadwy Adran 106 ac yn annog pobl i Deithio'n Llesol yn gyffredinol ledled cymuned Aberthin i'w gwneud yn haws ac yn fwy diogel i bobl sy'n dewis cerdded a beicio, sy'n cyd-fynd â pholis'r Cyngor a Llywodraeth Cymru.
- > Bydd y data traffig a gesglir yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru fel gwybodaeth ychwanegol ac i gyfrannu at y data sy'n cael ei gasglu yn ei chynlluniau peilot ffurfiol ar gyfer terfyn cyflymder 20mya safonol newydd Cymru. Bydd hyn yn helpu i gasglu data hirdymor ac yn galluogi unrhyw faterion nas rhagwelwyd i gael eu datrys cyn i derfyn cyflymder 20mya safonol gael ei gyflwyno'n genedlaethol ym mis Ebrill 2023.

Llanbedr-y-Fro

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig gwneud Gorchymyn Traffig Arbrofol dan Adrannau 9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a fydd yn newid y terfyn cyflymder presennol i ffyrdd 20mya ym mhentref Llanbedr-y-fro. Y gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y cynigion yw gosod pyrth ac arwyddion 20mya mewn lleoliadau a nodwyd i weithredu'r Gorchymyn Arbrofol uchod.

Y rhesymau ffurfiol dros gynnig y Gorchymyn newydd yw:

- > Mae cefnogaeth sylweddol gan y gymuned ac aelodau lleol dros gyflwyno terfyn 20mya ym mhentref Llanbedr-y-fro.
- > Yn ddiweddar, cafodd Llanbedr-y-Fro ei awgrymu ar gyfer cynllun peilot gan Fro Morgannwg i Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu data hanfodol fel rhan o'r cynnig i gyflwyno terfyn cyflymder 20mya safonol newydd Cymru ond roedd yr ymgais hon yn aflwyddiannus.

> Felly, ystyrir ei bod ond yn briodol bwrw ymlaen â chynllun ar gyfer cyflwyno terfyn 20 mya yn Llanbedr-y-Fro oherwydd y gefnogaeth glir i gynllun yn yr ardal honno a'r ffaith ei fod wedi'i gyflwyno'n flaenorol i Lywodraeth Cymru fel un o'r lleoliadau a ffefrir gan y Cyngor hwn ar gyfer cynllun peilot.

> Y rheswm dros weithredu'r Gorchymyn hwn yw er budd diogelwch ar y ffyrdd ac, yn benodol, wella diogelwch cerddwyr a phlant ledled y pentref sy'n cynnwys Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr-y-fro.

> Mae'r Gorchymyn hefyd yn annog pobl i Deithio'n Llesol yn gyffredinol ledled cymuned Llanbedr-y-fro i'w gwneud yn haws ac yn fwy diogel i bobl sy'n dewis cerdded a beicio, sy'n cyd-fynd â pholisi'r Cyngor a Llywodraeth Cymru.

> Bydd y data traffig a gesglir yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru fel gwybodaeth ychwanegol ac i gyfrannu at y data sy'n cael ei gasglu yn ei chynlluniau peilot ffurfiol ar gyfer terfyn cyflymder 20mya safonol newydd Cymru. Bydd hyn yn helpu i gasglu data hirdymor ac yn galluogi unrhyw faterion nas rhagwelwyd i gael eu datrys cyn i derfyn cyflymder 20mya safonol gael ei gyflwyno'n genedlaethol ym mis Ebrill 2023.